**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/2024

## 1 Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a’r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif a’i ddefnyddio’n briodol mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae ganddo ddyletswydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru 2021 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o faterion economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth dderbyn y cyfrifoldeb hwn mae’r Cyngor yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei fusnes, i hwyluso'r gwaith o arfer ei swyddogaethau yn effeithiol, yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diddymu’r dyletswyddau perfformiad a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae’r drefn perfformiad a llywodraethu newydd (heblaw am y darpariaethau’n ymwneud ag asesiadau perfformiad panel), yn berthnasol i gynghorau o flwyddyn ariannol 2021-22 ymlaen. Mae gofyn i gynghorau gynnal hunanasesiad perfformiad blynyddol ac ateb y cwestiynau:

1) A yw’r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau’n effeithiol?

2) A yw’r Cyngor yn defnyddio’i adnoddau yn economaidd, yn effeithiol ac yn effeithlon?

3) A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer sicrhau’r uchod?

Mae’r ail hunanasesiad ar gyfer 2023-2024 wedi’i gymeradwyo a’i gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac mae ar gael yma. Mae’r Cyngor rŵan yn paratoi ei drydydd hunanasesiad ar gyfer 2023-2024 a fydd yn cael ei adrodd i ddemocratiaeth yn hydref 2024.

Mae’r trydydd cwestiwn ‘A oes gan y Cyngor lywodraethu effeithiol?’ yn cael ei ateb gan yr hunanasesiad yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Mae gan y Cyngor **God Llywodraethu Corfforaethol Lleol** sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE, sef Darparu Trefniadau Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol a **Fframwaith Llywodraethu** sy’n cynnwys y polisïau, gweithdrefnau, ymddygiadau a’r gwerthoedd sy’n rheoli ac yn llywodraethu’r Cyngor. Mae’r datganiad hwn yn werthusiad o gydymffurfiaeth â’r Cod Lleol ac os yw’r trefniadau llywodraethu yn cefnogi darpariaeth Amcanion Corfforaethol yn effeithiol. Mae’r Datganiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy’n gofyn i gyrff perthnasol baratoi datganiad llywodraethu blynyddol.

## 2 Beth yw Llywodraethu?

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli sefydliad.

Bydd strwythur llywodraethu da yn cynnwys, fel isafswm:

- Safonau llywodraethu clir a fydd yn llywodraethu sefydliad
- Rolau a chyfrifoldebau llywodraethu
- Mecanwaith ar gyfer mesur perfformiad sefydliad yn erbyn ei safonau llywodraethu.

Er mwyn bod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i sefydliad feddu ar sail gadarn o lywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn.

## 3 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i sicrhau bod arferion rheoli ac egwyddorion llywodraethu da yn cael eu mabwysiadu ym mhob gweithgaredd busnes er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd.

### 3.1 Y Cod Llywodraethu Lleol

Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn darparu datganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu CIPFA.

### 3.2 Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cod Lleol wedi'i danategu gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys y polisïau, gweithdrefnau, ymddygiadau a'r gwerthoedd sy'n rheoli ac yn llywodraethu'r Cyngor.

### 3.3 Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn darparu sicrwydd o ran trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, ynghyd â nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u gwella yn y dyfodol. Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i god llywodraethu lleol. Mae'n nodi'r meysydd hynny sydd angen eu gwella yn ôl yr hunanasesiad.

### 3.4 **Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol**

Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella yn ôl yr hunanasesiad ac maent yn cael eu monitro drwy'r Cynllun Gweithredu Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 4 Ffynonellau sicrwydd ar gyfer y gwerthusiad hwn:

| | | |
|---|---|---|
| Sicrwydd ar gyfer: Cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | Ffynonellau sicrwydd: Cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth | Derbynnir sicrwydd drwy: Adroddiad Blynyddol |
| Sicrwydd ar gyfer: Darparu gwasanaethau yn economaidd, yn effeithlon ac effeithiol | Ffynonellau sicrwydd: Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth.<br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br>Hunanasesiad Blynyddol. | Derbynnir sicrwydd drwy: Adroddiad Perfformiad Corfforaethol.<br>Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.<br>Adolygiad Blynyddol Craffu.<br>Adolygiad a her y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>Asesiad Panel Perfformiad (unwaith bob gweinyddiaeth). |
| Sicrwydd ar gyfer: Rheoli | Ffynonellau sicrwydd: | Derbynnir sicrwydd drwy: |

| | | |
|---|---|---|
| risgiau a phroblemau | Fframwaith rheoli risgiau a materion.<br>Cofrestr risgiau a materion corfforaethol a gwasanaeth.<br>Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth. | Her allanol gan Archwilio Cymru.<br>Adolygiad craffu a herio.<br>Adolygiad a her y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Cynllunio a pherfformiad ariannol | Ffynonellau sicrwydd:<br>Adroddiadau Monitro.<br>Perfformiad Ariannol.<br>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.<br>Gweithdrefnau ariannol.<br>Monitro dangosyddion economaidd a derbynebau ariannol cysylltiedig. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Adrodd yn rheolaidd ar berfformiad a chyllid.<br>Datganiad Cyfrifon Blynyddol. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol | Ffynonellau sicrwydd:<br>Cyfansoddiad (yn cynnwys swyddogion statudol, cynllun dirprwyo, rheolaeth ariannol a rheolau caffael).<br>Y Cyngor, Cabinet, pwyllgorau a phaneli.<br>Tîm Arwain Strategol / Uwch Dîm Rheoli.<br>Rheoleiddio allanol.<br>Archwiliadau mewnol. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Adroddiadau archwilio allanol.<br>Adroddiadau archwilio mewnol.<br>Cofnodion Sgwrs Conwy.<br>Sicrwydd Penaethiaid Gwasanaeth wedi'i gofnodi fel rhan o gyfarfodydd ymgynghori sicrwydd blynyddol. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Ymgysylltu â'r gymuned ac atebolrwydd cyhoeddus. | Ffynonellau sicrwydd:<br>Strategaeth Cynnwys y Gymuned.<br>Rhaglen Waith Ymgysylltu.<br>Polisi Cwynion. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Adborth ymgysylltu â'r gymuned.<br>Gwersi a ddysgwyd.<br>Adroddiadau Ombwdsmon. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Rheoli prosiectau a darpariaeth prosiectau. | Ffynonellau sicrwydd:<br>Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Canlyniadau'r cynllun gwireddu buddion.<br>Adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Prosesau caffael | Ffynonellau sicrwydd:<br>Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.<br>Rheoliadau Ariannol. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Tystiolaeth o werth am arian.<br>Herio contractau a ddyfarnwyd. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion. | Ffynonellau sicrwydd:<br>Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, Swyddog Monitro a Swyddog A151. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Archwiliadau Allanol.<br>Adolygiad Blynyddol gyda'r Cabinet. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Safonau ymddygiad. | Ffynonellau sicrwydd:<br>Polisïau a Gweithdrefnau AD.<br>Codau ymddygiad. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Canmoliaethau a chwynion a dderbynnir.<br>Rôl y Pwyllgor Safonau o ran sicrwydd ar safonau ymddygiad. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Hyfforddiant a Datblygu | Ffynonellau sicrwydd:<br>Cynllun Dysgu a Datblygu | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Arolwg Staff. |

| | | |
|---|---|---|
| Aelodau a Swyddogion. | Corfforaethol.<br>Cynllun Datblygu Aelodau. | Cofnodion Sgwrs Conwy.<br>Cofnodion hyfforddiant.<br>Adroddiadau cwblhau hyfforddiant gorfodol.<br>Adroddiadau Blynyddol Cynghorwyr. |
| Sicrwydd ar gyfer:<br>Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau mewnol. | Ffynonellau sicrwydd:<br>Fframwaith polisi.<br>Strategaeth Rheoli Gwybodaeth.<br>Strategaeth Ddigidol.<br>Strategaeth Seibergadernid.<br>Safonau'r Gymraeg.<br>Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg.<br>Polisi Iechyd a Diogelwch.<br>Adroddiadau archwilio mewnol.<br>Rhannu Pryderon a threfniadau eraill i atal twyll. | Derbynnir sicrwydd drwy:<br>Arolygon allanol annibynnol.<br>Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg.<br>Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch. |

**Darperir dau ddarn allweddol o sicrwydd gan Archwilio Mewnol ac Allanol.**

Ym Marn Archwilio 2023/2024 dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod amgylchedd rheoli mewnol a systemau rheoli mewnol y Cyngor yn darparu sicrwydd boddhaol dros brosesau busnes allweddol a systemau ariannol i reoli cyflawniad amcanion y sefydliad. Mae cynllun archwilio yn seiliedig ar risg trwy fap sicrwydd y Cyngor wedi'i ddefnyddio i wneud yn siŵr bod sicrwydd digonol ar gael i gefnogi'r farn flynyddol. Mae arferion gwaith wedi parhau i newid er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd archwiliadau mewnol, gyda chanolbwynt cynyddol ar feysydd risg wedi'u nodi o fewn y map sicrwydd a symud i ffwrdd o brosesau archwilio cylchol. Mae'r cynllun archwilio mewnol yn parhau i ddarparu'r hyblygrwydd gofynnol ac ar y cyd â gwaith archwilio mewnol uniongyrchol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd wedi tynnu ar ffynonellau sicrwydd ychwanegol, a grynhoir fel a ganlyn:

- Canlyniadau'r holl archwiliadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024
- Canlyniadau'r camau dilynol a gymerwyd mewn perthynas ag archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol
- A oes argymhellion sylweddol neu gritigol heb eu derbyn gan y rheolwyr a'r risgiau cysylltiedig
- Effaith unrhyw newid i amcanion neu weithgareddau'r sefydliad
- Mae gan y gwasanaeth fap sicrwydd cynhwysfawr i sicrhau bod y meysydd hynny â'r flaenoriaeth fwyaf yn derbyn sylw, bod bylchau sicrwydd yn cael eu llenwi ac nad oes unrhyw faes o 'or-sicrwydd'
- Y gwaith a wneir gan Archwilio Cymru a rheoleiddwyr allanol eraill
- Materion yn codi o adroddiadau blaenorol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Gwaith y Grŵp Gwella ac Archwilio i fonitro risgiau a materion corfforaethol i sicrhau bod holl risgiau critigol a mawr a materion corfforaethol wedi'u nodi drwy'r Awdurdod;
- Derbyn sicrwydd bod llif cyllido allanol wedi cael ei reoli'n dda a bod llywodraethu ac atebolrwydd priodol ar gyfer y defnydd o arian cyhoeddus yn ei le
- Mae'r gwasanaeth wedi cwrdd â Chyfarwyddwyr Strategol a Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod meysydd risg newydd a phosibl, datblygiadau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac effaith deddfwriaeth newydd

Cyflwynwyd Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023/24 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 20 Mai 2024.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod ar gyfer y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2024. Cafodd 86% o'r archwiliadau cynlluniedig a gafodd eu cwblhau yn ystod y flwyddyn eu hasesu fel eu bod yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd.Cafodd 4 o'r archwiliadau cynlluniedig a gynhaliwyd eu hasesu fel eu bod yn darparu lefel gyfyngedig o sicrwydd – roedd y rhain yn ymwneud â: seibergadernid; grant Cefnogi Tai Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23; Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol; a gemau Undeb Rygbi Cymru yn Stadiwm CSM, Parc Eirias. Bydd archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal yn 2024/25 i sicrhau bod yr argymhellion wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol.

Cafodd darganfyddiadau'r archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarterol. O'r 13 gam dilynol a berfformiodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, mae 74 o'r argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn, 15 yn weddill ac 56 ar y gweill. Mae'r tri phrif argymhelliad sydd ar y gweill yn ymwneud â Chaffael Corfforaethol (rhan 1); Parent Pay ac ôl-ddyledion prydau ysgol cynradd; a chyflog cyfartal a gwerthuso swyddi. Ar gyfer 8 o'r archwiliadau dilynol, cafodd y farn archwilio ei gwella i sicrwydd uchel; ar gyfer 3 o'r archwiliadau dilynol, cafodd y farn archwilio ei gwella o sicrwydd cyfyngedig i sicrwydd boddhaol.

Cafodd datganiadau ariannol drafft 2022/23 eu paratoi a'u darparu i'r archwilydd fis Gorffennaf 2023. Bu'n rhaid oedi'r archwiliad o'r datganiadau ariannol oherwydd materion o ran adnoddau yn Archwilio Cymru, ond cafodd ei gwblhau fis Mai 2024 gyda barn archwilio ddiamod. Mae Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 ar gael yma.

## 5 Adolygiad o Effeithiolrwydd – Sut ydym ni'n gwybod bod ein trefniadau'n gweithio?

Mae'r datganiad hwn yn adeiladu ar 'Ddiweddariad Ymarferydd Trefniadau Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol 2020' y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, Adroddiad Blynyddol Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol a gan sylwadau archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill. Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu wedi'i werthuso drwy adolygiad gan y Grŵp Gwella ac Archwilio a'r Uwch Dîm Rheoli.

## DIFFINIAD O SGORIAU SICRWYDD

Mae'r matrics sgoriau sicrwydd canlynol wedi'i ddefnyddio i hunanasesu ein rheolaethau llywodraethu.

| | |
|---|---|
| SICRWYDD UCHEL (GWYRDD) | Mae rheolaethau'n bodoli i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i ddiogelu'r Awdurdod rhag risg yn y dyfodol, sy'n cael eu gweithredu yn gyson ac yn effeithiol. Ni ddaethpwyd o hyd i gamgymeriadau arwyddocaol na sylweddol.<br>Angen camau gweithredu blaenoriaeth isel i reoli a lleihau risgiau, sy'n hawdd eu rheoli. |
| SICRWYDD BODDHAOL (MELYN) | Mae rheolaethau allweddol ar waith i gyflawni amcanion y gwasanaeth a lliniaru risgiau sylweddol y gellir eu rhagweld yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o anghysondeb ac mae cyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru risgiau posibl ymhellach.<br>Rhywfaint o gyfleoedd yn dal i fodoli i liniaru risgiau posibl ymhellach. |

| | |
|---|---|
| | Rhywfaint o risg o golled, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG (OREN) | Mae rheolaethau allweddol ar waith a chydymffurfir â hwy i raddau amrywiol, ond mae bylchau yn y broses sy'n golygu fod y gwasanaeth yn agored i risg. Nid yw amcanion yn cael eu cyflawni neu maent yn cael eu cyflawni heb werth am arian.<br>Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth â'r rhai presennol er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod.<br>Risg uchel o golled, twyll, amhriodoldeb neu niwed i enw da. |
| DIM SICRWYDD (COCH) | Ystyrir bod y rheolaethau allweddol yn annigonol gydag o leiaf un dull rheoli hanfodol ar goll. Mae hefyd angen gwella cydymffurfiaeth â rheolaethau presennol a chafwyd hyd i wallau a hepgoriadau.<br>Nid yw rheolaethau allweddol yn bodoli ac nid yw'r amcanion yn cael eu cyflawni, neu maent yn cael eu cyflawni heb sicrhau gwerth am arian.<br>Mae'r Awdurdod yn agored i risg sylweddol iawn, a all arwain at golled ariannol fawr, embaras o risg i enw da neu fethu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth. |

Mae'r **Model Sicrwydd Amddiffyniad Tair Llinell** yn ganolog i'r gwerthusiad o effeithiolrwydd.

Mae gan yr Awdurdod brosesau sydd wedi'u hen sefydlu i sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r prosesau adolygu perfformiad gwasanaeth a hunanasesu yn effeithiol i fonitro a gwerthuso darpariaeth y Cyngor o'i ymrwymiadau strategol a rheoleiddiol; pa mor dda y mae materion a risgiau'n cael eu rheoli ac a yw adnoddau ariannol ac anariannol yn cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon.

Tanategir y mecanweithiau gwerthuso hyn gan fframwaith rheoli perfformiad cadarn sydd wedi'i ymgorffori ar bob lefel o'r sefydliad, i sbarduno gwelliant a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r prosesau ar gyfer cynllunio strategol a gwasanaeth yn sicrhau bod blaenoriaethau ar lefel gwasanaeth yn cyd-fynd yn uniongyrchol ag amcanion corfforaethol ac mae adnoddau'n cael eu nodi a'u dyrannu'n briodol; mae'r broses ar gyfer rheoli risg a phroblemau'n sicrhau eu bod yn cael eu rheoli ar lefel gwasanaeth a Chorfforaethol; mae'r broses ar gyfer mesur perfformiad yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei olrhain yn agos a bod ymyriadau amserol yn cael eu defnyddio pan fo'n briodol. Mae effeithiolrwydd y prosesau hyn yn cael ei brofi drwy archwilio, craffu a herio allanol a mewnol cadarn.

### 1. Y llinell amddiffyn gyntaf

Dan y llinell amddiffyn gyntaf, mae rheolwyr gweithredol yn gyfrifol am asesu, rheoli a lliniaru risgiau yn uniongyrchol. Mae gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth gynorthwyo â pharatoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y Cyngor drwy ddarparu datganiad sicrwydd ar gyfer y fframwaith rheoli mewnol o fewn eu gwasanaeth. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn eu cynllun gwasanaeth. Maent yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau a phroblemau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys monitro effeithiolrwydd y rheolaethau i liniaru'r risgiau a phroblemau a chymryd camau adferol pan fo rheolaethau'n wan neu pan nad ydynt mewn lle.

Mae Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth ddwywaith y flwyddyn yn parhau. Maent yn rhoi sicrwydd bod gan wasanaethau drefniadau llywodraethu cadarn. Roedd yr adolygiadau perfformiad gwasanaeth canol y flwyddyn ar gyfer 2023/24 yn darparu sicrwydd fod gwasanaethau yn gwneud cynnydd wrth ddarparu blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth, bod y risgiau a phroblemau yn cael eu rheoli a bod cydymffurfiaeth reoleiddiol yn cael ei gyflawni. Fodd bynnag, yr heriau ariannol ac adnoddau sylweddol a wynebir gan bob gwasanaeth yw prif ganolbwynt y trafodaethau adolygu o hyd. Mae gostyngiadau cyllideb, cynnydd mewn costau,

heriau recriwtio a chadw ac absenoldebau staff, yn erbyn cynnydd yn y galw am wasanaethau, yn parhau i roi pwysau sylweddol ar allu'r Cyngor i gynnal y lefel bresennol o gynnydd a pherfformiad. Mae cytundeb cyffredinol rhwng swyddogion ac aelodau nad all y lefelau presennol o ddarpariaeth gwasanaeth gael ei gynnal gyda chymaint o anawsterau o ran adnoddau a heb effeithio'n negyddol ar les staff.

Cafodd Adroddiad Cynnydd 2023/24 Cynllun Corfforaethol 2022-2027 ei gyflwyno i ddemocratiaeth gyda chanlyniad cyffredinol fel a ganlyn:

*'Mae cynnydd boddhaol cyffredinol yn cael ei wneud i ddarparu canlyniadau'r Cyngor er gwaethaf staff a chynghorwyr yn gweithio o fewn amgylchedd economaidd heriol iawn lle mae pwysau sylweddol ar adnoddau a chymhwysedd.'*

Mae gan Gonwy hanes da o reoli a rheoli ei gyllideb refeniw. Fodd bynnag, o ganlyniad i chwyddiant sylweddol o ran cyflogau a phrisiau, costau eraill a'r galw cynyddol am wasanaethau i gefnogi ein preswylwyr mwyaf diamddiffyn, mae trio cadw'r gwario o fewn y gyllideb sydd ar gael yn anoddach fyth rŵan. Wrth i raddfa'r pwysau ddod yn amlwg yn 2023/24, cymerwyd camau yn ystod y flwyddyn i gyfyngu gwario, a helpodd i atal gwario mwy na'r gyllideb. Roedd sefyllfa derfynol y Cyngor yn orwariant o £1.4 miliwn, a ariannwyd yn defnyddio'r cronfeydd wrth gefn. Cafodd y rhan fwyaf o'r arbedion cynlluniedig eu cyflawni'n llwyddiannus gan y gwasanaeth.

O ystyried y pwysau ariannol parhaus, mae'r Cyngor yn cymryd camau gweithredol i gynllunio a rheoli ei sefyllfa ariannol yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys defnyddio meincnodau i herio'r gyllideb, asesu lefelau gwasanaeth yng nghyd-destun dyletswyddau statudol a chynnal gweithgorau cyllideb a arweinir gan Aelodau i ystyried ffurf y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

**Sgôr Sicrwydd:** Sicrwydd Boddhaol

## 2. Yr ail linell amddiffyn

Mae'r ail linell amddiffyn yn cynnwys goruchwylio a monitro gweithgareddau a gwmpasir gan sawl elfen o lywodraethu mewnol (cydymffurfiaeth archwilio, rheoli risg a phroblemau, perfformiad, rheoli ariannol ac ati). Mae'r llinell amddiffyn hon yn monitro ac yn hwyluso gweithrediad arferion llywodraethu effeithiol gan reolwyr gweithredol ac yn cynorthwyo ag adrodd gwybodaeth i bawb yn y sefydliad. Mae cyfres o adroddiadau yn cael eu hysgrifennu drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys adroddiad blynyddol y Cynllun Corfforaethol, adroddiadau ariannol, adroddiadau cydraddoldeb, llywodraethu gwybodaeth, adroddiadau craffu, adroddiadau ar y Gymraeg – mae pob un o'r rhain wedi'u rhestru yn y Fframwaith Llywodraethu.

Mae Cod Rheolaeth Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gosod safonau rheoli ariannol gyda'r nod o hybu arferion da a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaladwyedd ariannol. Mae cyrff llywodraeth leol yn wynebu her barhaus i'w gwytnwch ariannol o ganlyniad i bwysau a galw sylweddol ar wasanaethau. Mae'r ansefydlogrwydd economaidd wedi ychwanegu at y pwysau hyn gan arwain at heriau ariannol newydd a sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Ym mis Rhagfyr 202r, diweddarodd y Cyngor ei gynllun ariannol tymor canolig, sy'n nodi'r gofynion cyllidol a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf ac sy'n cynllunio sut i reoli'r gofyniad o ran adnoddau o fewn yr arian sydd ar gael. Mae'r cynllun yn ymwneud â chyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na thair i bum mlynedd, a hynny oherwydd yr ansicrwydd ariannol ac economaidd sylweddol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Er gwaethaf cyfnod cymharol fyr y cynllun, ei nod yw helpu i greu sylfaen gynaliadwy ar gyfer cyllid y Cyngor yn y tymor hirach.

Mae'r holl adroddiadau sydd angen cymeradwyaeth wleidyddol wedi cael eu cyflwyno un ai i'r

Cabinet neu'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth, a lle bo'n briodol i un o'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer adolygu a herio. Mae'r adroddiadau'n gyffredinol yn nodi bod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd da i gyflawni'r amcanion corfforaethol a strategaethau ategol eraill, ond mae heriau sylweddol yn ymwneud ag adnoddau a chapasiti. Mae'r adroddiadau'n gytbwys ac yn nodi meysydd i'w gwella lle bo'r angen. Mae rhaglen waith yn ei lle i sicrhau bod adroddiadau yn cael eu cyflwyno mewn modd amserol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Gadeiryddion Craffu gyda swyddogion llywodraethu.

**Sgôr Sicrwydd:** Sicrwydd Boddhaol

### 3. Y drydedd linell amddiffyn

Mae archwilio mewnol yn ffurfio trydedd linell amddiffyn y sefydliad. Mae swyddogaeth archwilio mewnol annibynnol gydag ymagwedd yn seiliedig ar risg tuag at waith, yn darparu sicrwydd i uwch-reolwyr. Mae'r sicrwydd hwn yn cynnwys pa mor effeithiol mae'r sefydliad yn asesu ac yn rheoli llywodraethu ac yn cynnwys sicrwydd ar effeithiolrwydd y llinell amddiffyn gyntaf a'r ail. Cyflwynwyd cyfanswm o 28 barn archwilio gan Archwilio Mewnol yn 2023/24, o'r rheiny roedd 16 o sicrwydd uchel, 8 o sicrwydd boddhaol a 4 o sicrwydd cyfyngedig. Ni chafwyd casgliadau archwilio o ddim sicrwydd.

Mae Archwilio Cymru yn darparu barn ar y datganiad o'r cyfrifon a threfniadau llywodraethu'r Awdurdod. Mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn darparu barn ar drefniadau llywodraethu a rheoli Gofal Cymdeithasol ac Addysg. Mae adroddiadau archwilio'r tri rheoleiddiwr yn dod i'r casgliad bod yna drefniadau llywodraethu da ar waith yn yr Awdurdod.

Mae camau unioni yn deillio o argymhellion archwilio mewnol ac allanol yn cael eu monitro'n agos i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith ac yn effeithiol i ymdrin â'r maes/meysydd risg a ddynodwyd, gan wella trefniadau llywodraethu'r Awdurdod ymhellach.

Adroddiadau Archwilio Cymru
Adroddiadau Archwilio Estyn
Adroddiadau Archwilio AGC
Asesiad Ansawdd Allanol Archwilio Mewnol CBSC

**Sgôr Sicrwydd:** Sicrwydd Uchel

## Cwestiynau Allweddol Hunanasesiad Llywodraethu

### 1. A yw'r Trefniadau Llywodraethu yn effeithiol wrth gefnogi darpariaeth?

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol eleni yn cynnwys cyfnod o amser pan oedd yr Awdurdod yn parhau i ymateb i amgylchedd economaidd cyfnewidiol a heriol, chwyddiant cynyddol a chynnydd sylweddol mewn cost, gan arwain at heriau a phwysau ariannol sylweddol.

**Ymgysylltu â Budd-ddeiliad:**

Mae ymgysylltiad cymunedol a budd-ddeiliaid yn parhau i fod yn rhan ganolog o brosesau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n ofynnol i'r cyngor o dan ddarpariaethau ymgysylltu'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ofyn am farn rhestr ragnodedig o ymgynghorai statudol ar sut mae'n perfformio yn erbyn ei swyddogaethau; gan gynnwys busnesau lleol, cynghorau cymuned, undebau llafur, partneriaid, yn ogystal â phreswylwyr a staff. Mae ceisio barn a mewnbwn y rhai sy'n defnyddio ei wasanaethau a'r rhai sy'n helpu i ddarparu ei wasanaethau yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn parhau i ddarparu ei swyddogaethau a defnyddio adnoddau mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae defnyddio'r adborth ymgysylltu â'r gymuned a budd-ddeiliaid yn rhan hanfodol i barhau i ddatblygu a gwella gwasanaethau, darparu'r hyn mae pobl ei angen a chynnal y Sir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae canlyniad lles Cynllun Corfforaethol sy'n canolbwyntio ar hysbysu, cynnwys ein cymunedau a gwrando arnynt, ac addasu'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn darparu amrywiaeth o ffyrdd i bobl gyfathrebu, cydweithio ac ymgysylltu â'n gwasanaethau.

Yn ystod 2023-24 cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus manwl ynghylch y gyllideb gan egluro'r sefyllfa ariannol heriol a gofyn i bobl am eu barn o ran sut dylai'r Cyngor flaenoriaethu a dyrannu ei adnoddau ariannol cyfyngedig. Gofynnodd yr arolwg am farn pobl ar ba wasanaethau sy'n bwysig iddyn nhw a'r gymuned leol. Roedd y gyfradd ymateb yn dda ac mae'r adborth yn cael ei ddefnyddio i hysbysu proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor a chryfhau gwydnwch ariannol a gwydnwch gwasanaethau.

Mae perthnasau da rhwng swyddogion ac aelodau wedi'u cynnal ac wedi parhau i gefnogi casglu barn y gymuned trwy adborth anffurfiol gan Aelodau trwy eu gwybodaeth gymunedol. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a chymunedau, gan roi adborth hanfodol i'r Cyngor er mwyn parhau i lunio a darparu gwasanaethau y mae pobl eu hangen.

Mae gan y Cyngor drefniadau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae cyfarfodydd ar y cyd rhwng swyddogion, aelodau a'r tri undeb, Unsain, GMB ac Unite, ar ffurf y Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol a chyfarfodydd ymgynghori undebau, lle mae cyfleoedd i drafod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor fel cyflogwr, trafod penderfyniadau corfforaethol a allai effeithio ar weithwyr y sefydliad a rhannu gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn unol â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Yn ogystal mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Undebau Llafur cydnabyddedig sy'n cynrychioli cydweithwyr Addysg – Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (Cymru), Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Voice ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC).

Yn ystod 2023-24 cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda'r Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli i drafod ffyrdd y gall y Cyngor gryfhau ei wydnwch i reoli heriau tymor byr gan roi'r Cyngor ar sylfeini cadarn ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor. Mae'r gwaith yma wedi parhau yn 2024-25 gyda'r nod o ddatblygu cynlluniau gweithredu tymor byr, tymor canolig a hirdymor sydd wedi'u halinio â 9 canlyniad 'Mae Cyngor Conwy yn wydn' y Cynllun Corfforaethol.

Parhaodd mentrau Amser i Newid Cymru yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â stigmâu ynghylch iechyd meddwl ac i gefnogi lles staff. Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd i gael sgyrsiau am iechyd meddwl a lles yn y gweithle. Mae cyfranogiad staff wedi bod yn cynyddu'n raddol ac mae'n dal yn cael ei gydnabod fel angen yn y gweithle o ystyried lefel yr absenoldebau oherwydd straen a gorbryder. Bellach mae dros 30 o Hyrwyddwyr Amser i Newid ar draws y sefydliad sy'n cyfarfod bob chwarter.

**Cynllunio Strategol:**

Mae cael cynlluniau strategol ar waith sydd wedi'u halinio ag amcanion lles y Cyngor yn hanfodol i sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu darparu'n effeithiol a bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni. Mae'r cynlluniau hyn yn tanseilio popeth mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn darparu rhaglenni mapio effeithiol i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gweithredol ac ymateb yn effeithiol i risgiau a chyfleoedd macro-amgylcheddol. Mae cynlluniau strategol y Cyngor wedi'u tanategu gan ymchwil a data cadarn i hysbysu'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae strategaethau corfforaethol, cyllid a chynlluniau gwasanaeth yn cyd-fynd ag amcanion lles y Cynllun Corfforaethol.

Mae diwylliant o gynllunio ar sail canlyniadau wedi'i sefydlu yn y prosesau cynllunio gwasanaeth a chynllunio corfforaethol.

Mae'r holl gynlluniau strategol allweddol a'r risgiau a phroblemau corfforaethol yn cyd-fynd â'r amcan lles perthnasol ac mae'n rhaid i'r holl adroddiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo'n ddemocrataidd ddangos sut maent yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac at ba un o amcanion lles a / neu risgiau'r Cynllun Corfforaethol y maent yn cyfrannu.

Mae pob cynllun strategol yn cael ei gynhyrchu ar ôl gweithredu prosesau ymgysylltu â'r gymuned ac yn cael ei gefnogi drwy reoli adnoddau. Mae cysylltiadau positif rhwng cynllunio strategol ac ariannol, ac rydym yn parhau i adeiladu arnynt.

**Penderfyniadau Allweddol:**

Mae'r Cyngor yn atebol yn gyhoeddus i'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu ac mae angen dangos gonestrwydd a thryloywder yn yr holl benderfyniadau mae'n eu gwneud. Darparu cyfleoedd i gymunedau gael mynediad, archwilio a herio penderfyniadau'r Cyngor a chael trywydd archwilio clir o sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud yn datblygu ymddiriedaeth y gymuned ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n economaidd, effeithiol ac yn foesegol.

Mae penderfyniadau allweddol yn adlewyrchu'r effaith ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cynaliadwyedd, ac mae'r Awdurdod yn parhau i ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy sicrhau bod y Ddeddf wedi'i hystyried ym mhob cynllun allweddol a phob penderfyniad allweddol a gyflwynir i ddemocratiaeth.

I wella'r trefniadau llywodraethu ymhellach, ac i integreiddio prosesau busnes, rydym ni wedi llwyddo i reoli gwaith adlinio meysydd cyfrifoldeb yr Uwch Dîm Rheoli ar gyfer rhai Penaethiaid Gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys llwyddiant yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth wrth recriwtio a phenodi unigolyn i swydd newydd sbon, sef Pennaeth Tai Strategol, i ddarparu ffocws clir a gwydnwch ar gyfer yr heriau tai fforddiadwy a digartrefedd sylweddol.

**Rheoli Perfformiad:**

Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn rhan hanfodol o sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau statudol, cenedlaethol a lleol, yn defnyddio ei adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, yn rheoli risg a heriau ac yn cymell gwelliant parhaus.

Gwerth am Arian: mae polisïau Caffael y Cyngor yn cynnwys buddion cymunedol. Maent yn rhan bwysig o'n meini prawf ar gyfer dyfarnu yn ogystal â gwerth am arian. Mae rheolau caffael contractau yn gofyn bod rheolwyr yn dangos gwerth am arian, ac felly nid yw bob amser yn golygu'r dewis rhataf.

Mae Bwrdd Cyfleoedd Conwy, Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth, Byrddau Prosiect a Rhaglenni i gyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer adolygiad, her a thrafodaethau ar gyfer gwella. Mae'r Cynllun Awgrymiadau Staff hefyd yn gwahodd Staff i gyflwyno syniadau ar gyfer gwelliannau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn ond mae modd i staff rannu syniadau yn ystod y sesiynau Sgwrs Conwy rheolaidd.

Mae Adroddiadau Blynyddol ac adroddiadau ar y prif bwyntiau yn dystiolaeth bod ein hamcanion, ar y cyfan, yn cael eu cyflawni er gwaethaf yr heriau ariannol sylweddol. Yn ystod y blynyddoedd

diwethaf rydym ni wedi gorfod addasu targedau ac ar gyfer rhai meysydd rydym ni wedi gwneud penderfyniad i greu dirywiad a reolir yn unol â gostyngiad mewn cyllidebau.

Pan fydd tystiolaeth o berfformiad sydd angen ei wella, mae cynlluniau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro.

Mae staff perthnasol sy'n gyfrifol am weithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi datblygu cynlluniau gweithredu a'u rhoi ar waith.

Yn ystod 2023-24, dygwyd yr adroddiad perfformiad blynyddol a'r adroddiad hunanasesu at ei gilydd i greu un adroddiad er mwyn cael mwy o synergedd a throsolwg cydlynol ar sut ydym ni'n cyflawni ein hamcanion lles ac yn perfformio fel Cyngor. Cyflwynwyd dangosfwrdd risgiau a materion i ddarparu trosolwg mwy strategol ac i werthuso pa mor dda mae'r risgiau a'r materion yn cael eu rheoli, gan olrhain hyn dros amser i werthuso effeithiolrwydd mesurau rheoli a chamau gweithredu i leihau'r risgiau/materion.

**2. A oes rhwystrau i gyflawniadau?**

Roedd y rhwystrau mwyaf arwyddocaol i gyflawniad yn 2023/24 yn cynnwys: diffyg gweledigaeth strategol ar gyfer reoli asedau; cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol; effaith statws mesurau arbennig y bwrdd iechyd; cynnydd mewn digartrefedd a diffyg tai fforddiadwy; ac anawsterau mewn recriwtio i swyddi gwag mewn meysydd gwasanaeth allweddol, yn ogystal â dileu rhai swyddi gwag er mwyn bodloni targedau lleihau'r gyllideb.

Yn ystod 2023/24, ein materion corfforaethol oedd:

| Cyfeirnod | Disgrifiad o'r Mater |
|---|---|
| CI 1 | Mae newidiadau demograffig, fel gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau, yn effeithio ar leoedd mewn ysgolion cynradd ac yn mynd i effeithio ar ysgolion uwchradd yn y dyfodol. |
| CI 10 | Mae cost lleoliadau addysg arbenigol / annibynnol wedi cynyddu'n sylweddol dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac mae hyn yn rhoi pwysau ariannol ar y gwasanaeth. |
| CI 11 | Dim capasiti i gynnal gorfodaeth amgylcheddol. |
| CI 13 | Methu â recriwtio i rai swyddi penodol yn yr Awdurdod. |
| CI 15 | Nid yw'r sector gofal cymdeithasol yn gynaliadwy ac nid yw'n gallu cwrdd ag anghenion cynyddol y boblogaeth o ganlyniad i faterion ariannol, recriwtio a diffyg hyder yn y sector yn effeithio ar argaeledd staff, lleoliadau a phecynnau gofal. |
| CI 17 | Diffyg darpariaeth tai fforddiadwy addas. |
| CI 18 | Mae lefelau digartrefedd wedi cynyddu. |
| CI 19i | Nid oes adnoddau digonol i ddarparu pecynnau gofal hanfodol o fewn y sector gofal cartref o ganlyniad i staff yn gadael y sector a phroblemau recriwtio cyffredinol. |
| CI 19ii | Nid oes adnoddau digonol i ddarparu pecynnau gofal hanfodol yn y sector gofal preswyl o ganlyniad i faterion cyffredinol yn ymwneud â chyflogau ac amodau a thelerau. |
| CI 21 | Y dirywiad yn y trefniadau partneriaeth â PBC yn arwain at gydweithio aneffeithiol, gan arwain at oedi a phenderfyniadau aneffeithiol ac arferion gweithio aneffeithlon. |
| CI 22 | Nid oes gennym ni weledigaeth strategol ar gyfer ein hasedau. |

Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae Adroddiad Cynnydd 2023-24 y Cynllun Corfforaethol yn dangos cynnydd da wrth gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol er gwaethaf y pwysau

ychwanegol digynsail.

Mae caledi ariannol a chapasiti is staff sy'n ymgymryd â mwy o rolau gan nad yw aelodau newydd o staff yn cael eu cyflogi yn parhau'n rhwystr sylweddol. Rydym yn parhau i wneud toriadau cyllidebol i sicrhau ein bod ni'n gallu cydbwyso'r gyllideb, ond mae hyn mynd yn fwy heriol bob blwyddyn, ac o ganlyniad, rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd i gynyddu ffioedd neu leihau neu atal rhai gwasanaethau.

Rydym ni'n parhau i edrych ar ffyrdd i archwilio a manteisio ar gyfleoedd ariannu eraill sydd ar gael. Rydym ni wedi sicrhau £20 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gryfhau adfywio cymunedol, cefnogi twf busnesau lleol a chefnogi oedolion i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Fodd bynnag, bydd y gronfa hon yn dod i ben yn 2025. Yn ogystal, rydym ni'n parhau i edrych ar sut fedrwn ni drawsnewid gwasanaethau er mwyn symleiddio prosesau busnes a defnyddio technoleg i gynyddu capasiti.

Er bod gennym drosolwg o bob partneriaeth strategol ranbarthol ac yn bresennol ym mhob un, mae'n dirlun cymhleth ac mae angen rheolaeth ofalus i sicrhau nad yw'r byrddau yn dyblygu nac yn gwrthdaro.

## 3 A yw llywodraethu yn cefnogi darpariaeth yr amcanion?

- Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu rheolaethau mewnol a gwneud newidiadau lle bo angen yn ôl y ddeddfwriaeth. Mae Archwilio Mewnol yn adolygu eu Map Sicrwydd yn rheolaidd, sy'n cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Archwilio Mewnol
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwblhau hunanasesiad blynyddol o'i berfformiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn ei gyfrifoldebau a bod ei drefniadau'n effeithiol. Mae cynllun gweithredu cywiro yn cael ei lunio lle nodir meysydd ar gyfer gwella
- Mae Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael a'r Rheolwr Archwilio yn cyfarfod timau rheoli gwasanaethau'n rheolaidd i drafod eu risgiau, pryderon a gofynion diweddaraf. Mae hyn yn sicrhau bod Archwilio Mewnol wedi'u diweddaru'n llawn ac yn ymwybodol o faterion sy'n dod i'r amlwg a risgiau a bydd yn gallu canolbwyntio adnoddau yn y prif feysydd blaenoriaeth a risg ar y pryd
- Mae adroddiadau perfformiad ddwywaith y flwyddyn i ddemocratiaeth ac uwch-reolwyr a gall yr holl reolwyr gael mynediad at ddata perfformiad drwy CAMMS ar unrhyw adeg
- Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cyd-fynd â'r amcanion lles ac mae mesurau a datganiadau dulliau mewn lle i gefnogi pob gweithred gorfforaethol
- Mae sianeli i'r cyhoedd a staff allu rhoi eu barn drwy ymarferion ymgysylltu â'r gymuned, e-ddeisebau, gwerthusiadau staff a phorthol ar gyfer syniadau staff
- Mae mecanweithiau adborth ar waith drwy'r cyfryngau cymdeithasol, briffiau staff, digwyddiadau ymgysylltu i staff a'r fforwm rheolwyr
- Mae gan bob prosiect a rhaglen gynllun gwireddu buddion mewn lle ac fe gedwir cofnodion o'r gwersi a ddysgwyd sydd yn cael eu rhannu drwy'r Fforwm Rheoli Prosiectau a Rhaglenni
- Cynhaliwyd rhaglen foderneiddio barhaus ar draws yr Awdurdod cyfan i sicrhau ein bod yn bodloni'r gostyngiadau uchelgeisiol i'r gyllideb a sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl. Mae'r Prosiect Doethwaith yn parhau â'n gwaith moderneiddio ac adnewyddu ar ôl y pandemig
- Mae adolygiad o'n prif ystâd swyddfeydd wedi'i gwblhau ac mae'r achos busnes amlinellol wedi'i gymeradwyo er mwyn ystyried yn fanylach yr achos busnes llawn ar gyfer datrysiad 1 swyddfa yng Nghoed Pella

## 4 Beth ydym ni'n ei wneud yn dda?

- Mae swyddogaethau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir er mwyn galluogi Aelodau a Swyddogion i gydweithio er mwyn cyflawni'r un diben, ac i benderfynu ar yr ymyriadau sydd

eu hangen i fodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r canlyniadau corfforaethol. Mae cynllun cynefino cynhwysfawr yn ei le i sicrhau bod yr holl aelodau etholedig newydd yn cael eu cefnogi i ddeall eu rolau a chyfrifoldebau a sut mae'r cyngor yn gweithio - yn enwedig o ran llywodraethu

- Mae cynllun sefydlu cynhwysfawr hefyd mewn lle ar gyfer uwch-reolwyr newydd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i berfformio eu rôl yn effeithiol, gan gyfrannu tuag at lywodraethu effeithiol o'r sefydliad
- Yn ogystal â Chyflwyniadau Corfforaethol, mae tudalen gynefino newydd wedi'i datblygu er mwyn cyflwyno holl aelodau o staff newydd a darparu adnodd iddynt gyfeirio ato wrth iddynt ddatblygu yn eu rolau newydd
- Pennir bob blaenoriaeth gorfforaethol a risgiau a phroblemau corfforaethol i Uwch Reolwyr ac Aelodau Cabinet fel bo modd eu dwyn i gyfrif ynghylch effeithiolrwydd y gweithredu
- Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu a rheoliadau ariannol yr Awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyllideb sefydledig, sydd yn destun asesiad risg, ac adroddiadau rheolaidd i'r aelodau'n cymharu rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf i gyllidebau blynyddol a phroses Fframwaith Cynllunio Busnes sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r Awdurdod
- Er gwaethaf 16 mlynedd o galedi, mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli ei gynlluniau gwario o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae Adroddiadau Gwella Blynyddol olynol gan Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad bod yna reolaeth fewnol dda

Er gwaethaf y rhwystrau a'r heriau a nodir, mae'r Awdurdod wedi darparu nifer o gyflawniadau yn erbyn ei amcanion lles.

**Canlyniad 1 – Mae pobl yng Nghonwy'n gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd**

1. Parhau i ddarparu cynlluniau arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd ar hyd a lled y sir i ddiogelu cymunedau rhag llifogydd ac i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd.
2. Parhau i wella llwybrau teithio llesol gan ddatblygu 9 cynllun teithio llesol yn y sir, yn cynnwys: Craig y Don; Cyswllt RSPB Glan Conwy; Pont Conwy; Betws-y-coed i Lanrwst; codi Pont Dolgarrog; Towyn i Fae Cinmel; Marl Lane yng Nghyffordd Llandudno; cylchfan y Toll Bar ym Mae Penrhyn; a Bae Colwyn.
3. Gosod mannau gwefru e-feiciau a gorsafoedd atgyweirio mewn lleoliadau amrywiol ar hyd Llwybr 5 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn y sir.
4. Gosod 18 man gwefru cerbydau trydan mewn dau ddepo, gan gynnwys rhai gorsafoedd gwefru cerbydau hybrid i gefnogi ein fflyd drydanol. 4 cerbyd ailgylchu trydan yn cael eu defnyddio gan ein gwasanaeth rheng flaen.
5. Casglu deuddeg tunnell (750,000) o bodiau goffi gan aelwydydd, fel rhan o gynllun casglu wrth ymyl y ffordd Podback, ers ei lansio ym mis Medi 2022.
6. Sefydlu cytundeb gyda Chyngor Sir Ddinbych i alluogi preswylwyr Conwy a Sir Ddinbych i ddefnyddio'r holl ganolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi yn y ddwy sir.
7. Wedi cyflawni cyfradd o 71% (19,500 tunnell) o wastraff wedi'i ailddefnyddio, ailgylchu a'i gompostio, sy'n welliant ar y cyfnod canol blwyddyn blaenorol.
8. Wedi cyflawni glendid strydoedd o 98%.
9. Wedi derbyn cefnogaeth gan Dîm Ynni Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i helpu gyda chynnydd y Cynllun Ynni Ardal Leol a phrosiectau sero net eraill.
10. Datgarboneiddio cadwyn gyflenwi integredig o fewn nodau strategaeth caffael CBSC.

**Canlyniad 2 – Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi lewyrchus a diwylliant yn ganolog iddi**

11. Cynnydd yn nifer yr ymweliadau i'n llyfrgelloedd o ganlyniad i gynnal gweithgareddau diwylliannol a defnyddio llyfrgelloedd fel canolbwyntiau cymunedol. Gwelodd Sialens Ddarllen yr Haf fwy na 1,100 o blant yn cymryd rhan a sesiynau 'Stori a Thamaid' yn cynnig diod a thamaid i'w fwyta am ddim i 600 o blant.
12. Darparu cyngor a chefnogaeth i 658 o fusnesau, yn cynnwys cefnogaeth ariannol i 18 o fusnesau drwy grant cymorth busnes Conwy.
13. Wedi sicrhau £20 miliwn o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gryfhau adfywio cymunedol, cefnogi twf busnes lleol a chefnogi oedolion i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer cyflogaeth.
14. Wedi dechrau ar waith i adfywio safleoedd allweddol, yn cynnwys hen adeilad Marks and Spencer Llandudno, Llyfrgell Bae Colwyn a Theatr Colwyn.
15. Wedi uwchraddio 7 safle gyda Band Eang Cyflym Iawn fel rhan o raglen Rhwydweithiau Ffeibr Llawn Lleol Llywodraeth Cymru gan gynnwys 2 gyngor cymuned, Llyfrgell Cerrigydrudion a chanolfan swmpio Gofer yn Abergele.
16. Dechrau gwaith i'w gwneud yn haws i ddarparwyr telegyfathrebu i ddefnyddio ein hisadeiledd fel goleuadau stryd neu golofnau teledu cylch caeedig i ehangu a gwella signal ffonau symudol ac/neu fand eang trwy sefydlu 'Cytundebau Mynediad Agored'.
17. Wedi llwyddo i gael cyllid i ddarparu prosiect i wella a diogelu'r economi ymwelwyr ar gyfer y dyfodol gan gynnwys canolbwyntio ar hyrwyddo twristiaeth yn y gaeaf a datblygu economi min nos.
18. Cyflwyno cais am gyllid i adnewyddu'r colofnau yn Llandudno, gyda'r bwriad o ddarparu gofod digwyddiadau ychwanegol, gan helpu i wella'r economi fin nos.
19. Sicrhau mwy na £1 filiwn i gefnogi ystod o brosiectau diwylliannol a lles fel rhan o Strategaeth Diwylliant Creu Conwy. Mae darparu ein strategaeth yn golygu ymrwymiad gyda mwy na 5,000 o bobl ar draws ystod o wyliau, digwyddiadau a gweithdai.
20. Wedi gwerthu mwy na 100,000 o docynnau yn ein theatrau a 10 o berfformiadau sydd wedi gwerthu pob tocyn yn cynnwys sioe Jack Whitehall yn Venue Cymru fel yr unig theatr ar y daith arena unigryw ar gyfer 2 berfformiad sydd wedi gwerthu pob tocyn.
21. Wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau er budd economaidd yn cynnwys: Prom a Mwy, sydd wedi denu 8,000 o bobl a chefnogi Digwyddiad Pride; cynhadledd feddygol ar gyfer BASHH gyda 600 o fynychwyr ac oddeutu budd economaidd lleol o £500,000.

**Canlyniad 3 – Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus**

22. Derbyn archwiliad cadarnhaol, gan gynnal ein proffil archwiliad cadarn gan Estyn.
23. Cynnal gweminarau ar gyfer arweinwyr ysgol ar ddyluniad, asesiad a chynnydd y cwricwlwm ac egwyddorion cynllunio, gan gynyddu eu hyder i ddatblygu eu dyluniad cwricwlwm lefel uchel.
24. Cynnal digwyddiad marchnad GwE lle gall ysgolion cynradd ac uwchradd rannu arfer llwyddiannus wrth ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm.
25. Cefnogi'r holl ysgolion i gadw ar y trywydd iawn i wireddu'r camau a amlinellwyd yng nghanllaw Siwrnai i 2022 (Cwricwlwm i Gymru).
26. Wedi darparu canllawiau presenoldeb a chefnogaeth i ysgolion wrth reoli presenoldeb i helpu rheoli'r broblem o bresenoldeb yn gwaethygu sy'n parhau i fod yn broblem genedlaethol.
27. Cadw ar y trywydd iawn i symud yr holl ddisgyblion ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdanynt i'r system ADY ar gyfer y flwyddyn academaidd hon.
28. Wedi dechrau cam un o'r adolygiad ADY statudol ac wedi datblygu rhaglen dreigl 3 blynedd.
29. Cynnal digwyddiadau ar gyfer unigolion 16 - 24 oed i ddatblygu sgiliau cyflogaeth, gan gynnwys: technegau cyfweliad ac ysgrifennu CV; llwybr gweithgareddau awyr agored am 10 wythnos mewn partneriaeth â Ffit Conwy, gan ddarparu rhagflas o yrfaoedd yn y sector gweithgareddau; a phasbort i gwrs adeiladwaith.
30. Cynnal digwyddiadau recriwtio misol gyda'r Ganolfan Waith a Mwy, gan wahodd pobl ddi-waith i gwrdd â chyflogwyr posib. Mae hyn wedi gwella cysylltiadau gyda chyflogwyr lleol gan eu gwneud nhw'n fwy parod i dderbyn mwy o bobl ar dreialon gwaith.

31. Datblygu cytundeb gyda Chydweithfa Crest i gynnig lleoliadau gwirfoddol i bobl sydd wedi cofrestru ar Gymunedau am Waith a Mwy.
32. Defnyddio ein canolfannau addysg awyr agored i ddarparu gweithgareddau lles ac ymrwymiad cymdeithasol i ddysgwyr diamddiffyn a'u teuluoedd, gan gynnwys y dysgwyr hynny sy'n derbyn addysg yn y cartref.
33. Cynnal sesiynau galw heibio ar les i bobl ifanc yn ein Canolfannau Teuluoedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar a sesiynau i helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu.
34. Cyflawni 30 o ddarpariaethau mynediad agored i ieuenctid yn y gymuned bob wythnos, gan ddarparu gofod i bobl ifanc gymdeithasu ac ennill sgiliau bywyd.

**Canlyniad 4 – Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd**

35. Darparu 122 o unedau tai fforddiadwy trwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol ers Ebrill 2023.
36. Addasu 61 eiddo gan alluogi 61 o drigolion diamddiffyn ychwanegol i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
37. Dod â 48 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, 8 ohonyn nhw'n dai fforddiadwy a chaffael 2 eiddo a oedd wedi bod yn wag ers peth amser drwy Gynllun Prydlesu Cymru.
38. Trafod £1.2 miliwn o gyllid Adran 106 i sicrhau bod capasiti ysgolion yn cael ei gynnwys yn y datblygiadau tai newydd.
39. Sicrhau £4.4 miliwn gan Raglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o gaffael ac adnewyddu 63 o unedau llety.
40. Sefydlu grŵp prosiect Safleoedd y Cyngor i gyflymu darpariaeth tai fforddiadwy yn defnyddio tir y Cyngor.
41. Atal 82% o achosion digartrefedd, sy'n welliant ar y flwyddyn yn dod i ben 2022-23 lle cafodd 68% o achosion digartrefedd eu hatal.
42. Dechrau cam 1 o ganolfan asesu plant Bwthyn y Ddol gyda cham 2 yn cael ei ddatblygu.
43. Wedi dechrau'r gwaith ar brosiect Sylva Gardens a fydd yn darparu llety â chymorth arbenigol a chartref am oes i bobl ifanc gydag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth.

**Canlyniad 5 – Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel**

44. Darparu sesiynau mewn ysgolion yn addysgu pobl ifanc ar y problemau a risgiau o drosedd cyllyll.
45. Wedi adolygu'r pecyn gwaith archwilio diogelu i ysgolion gan gryfhau'r broses i sicrhau fod trefniadau diogelu yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion Llywodraeth Cymru ac Estyn.
46. Sicrhau £535,000 o gyllid i wella gwasanaeth TCC (Teledu Cylch Caeëdig) fel y gellir rheoli llefydd agored yn well gan gynnwys TCC symudol.
47. Wedi cynnal 105 o ymweliadau monitro i leoliadau gofal, ac wedi cefnogi 5 o ddarparwyr trwy'r llwybr Uwchgyfeirio Pryderon, er mwyn gwella a chynnal safonau gofal uchel i breswylwyr diamddiffyn.

**Canlyniad 6 – Mae pobl yng Nghonwy yn iach**

48. Gweini 4,678 o brydau ysgol am ddim y dydd yn ein hysgolion cynradd.
49. Penodi Swyddog Lles: Celf a Diwylliant, sy'n gweithio'n agos gyda Chanolfannau i Deuluoedd, Tîm Anableddau a Lles Meddyliol i edrych ar gyfleoedd atal ac ymyrraeth gynnar trwy Ddiwylliant.
50. Darparu cyfres o ddangosiadau sinema am £1 yn Theatr Colwyn gan ddarparu mynediad fforddiadwy i adloniant i deuluoedd yn ystod yr argyfwng costau byw.
51. Wedi cynnig sesiynau hel atgofion yn y ward dementia yn Ysbyty Bae Colwyn trwy brosiect Cyfuno.

52. Wedi cymryd rhan yn Ymgyrch Gwrando ar Ddementia Llywodraeth Cymru gan gefnogi cymuned Llanfairfechan i ddeall dementia yn well.
53. Cyflogi Cydlynydd Llwybr i Gyflogaeth i alluogi mwy o bobl gydag anabledd dysgu i ennill cyflogaeth sy'n talu.
54. Parhau i gyflwyno model comisiynu newydd ar gyfer cyflwyno gofal cartref i bobl hŷn ym Mae Colwyn ac Abergele, gan gyflwyno defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r broses o wneud yn siŵr bod y pecynnau gofal yn gywir iddyn nhw sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal a ddarperir.
55. Wedi sicrhau cyllid grant o £760,000 ar gyfer prosiect Cyfleoedd Gwaith Bron y Nant i helpu pobl gydag anableddau dysgu i ddatblygu sgiliau i ennill cyflogaeth sy'n talu.
56. Wedi sicrhau bod gan 97% o'r rhai sy'n gadael gofal gynllun ar gyfer eu llwybr o'i gymharu â'r targed o 95%.
57. Trwy ein Canolfannau Teuluoedd, rydym wedi cynnal sesiynau MIND (Mamau yn Cyfrif), sesiynau galw heibio i unigolion ag awtistiaeth, sesiynau chwarae synhwyraidd i blant ag anghenion ychwanegol a grwpiau i ofalwyr ifainc.
58. Cynyddu ffioedd i ofalwyr maeth trwy'r grant Cael Gwared ar Elw fel un o'r mecanweithiau i gynyddu'r argaeledd o ofalwyr maeth yn y sir.
59. Wedi darparu ein Rhaglen Lles Cymunedol gan gynnwys grwpiau cerdded i annog bod yn heini a rhaglen ddawnsio i bobl sy'n byw gyda'r afiechyd Parkinson's.
60. Parhau gyda'r Coleg Adfer ac wedi darparu'r rhaglen Dyddiaduron Creu fel rhan o hyn. Mae'r coleg hwn yn helpu i ddarparu gwasanaethau ataliol dydi bobl methu cael mynediad iddyn nhw yn unman arall.
61. Lleihau'r rhestr aros ar gyfer pecynnau gofal o 66%, o 1800 ar ddiwedd blwyddyn 2022-23 i 600 yng nghanol blwyddyn 2023-24 trwy fwndelu oriau gofal.
62. Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i'r afael â'r problemau'n ymwneud â chymhwysedd meddygfeydd a recriwtio ym Mae Colwyn.
63. Sicrhau cyllid i wella a chynyddu'r offer campfa yn ein canolfannau hamdden i barhau i gwrdd â'r galw cynyddol am y cyfleusterau hyn.
64. Sicrhau cyllid i wella a chynyddu'r cyfleusterau nofio o ansawdd uchel er mwyn parhau i fodloni'r galw cynyddol am wersi nofio.

**Canlyniad 7 – Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg**

65. Darparu 601 o weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg gan gynnwys: Amser Stori ddwyieithog yn wythnosol; digwyddiadau unwaith ac am byth i hyrwyddo gwasanaethau yn y gymuned h.y. gyda Merched y Wawr, cymdeithasau hanesyddol ac ymweliadau a gweithgareddau ysgol mewn cydweithrediad â rhaglen Creu Conwy.
66. Parhau gyda'r Cynllun Sgwrsio, gyda 30 pâr o ddysgwyr/unigolion rhugl sy'n cwrdd yn rheolaidd i sgwrsio yn Gymraeg.
67. Wedi treialu fformat newydd o gyrsiau Cymraeg Gwaith yn llwyddiannus gan gyfuno dysgu ar-lein gyda gwersi wyneb yn wyneb.
68. Wedi cefnogi 13 aelod o staff i lwyddo yn eu harholiadau Cymraeg gan gyflawni canlyniadau llwyddo da.
69. Wedi cyfieithu oddeutu 1.4 miliwn o eiriau ac wedi darparu 50-70 awr o gyfieithu ar gyfer cyfarfodydd bob mis yn ystod y cyfnod hwnnw.
70. Wedi cymryd rhan ym mhrosiect Academi Wales 'Arwain mewn gwlad ddwyieithog' i ddatblygu ein diwylliant o ran dwyieithrwydd ymhellach.
71. Wedi derbyn canmoliaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg am y lefel uchel o gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

**Canlyniad 8 – Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu**

72. Darparu sesiynau diwylliant LHDTC+ yn ein gwasanaeth Amgueddfeydd.
73. Trwy'r prosiect Amdani rydym wedi recriwtio gwirfoddolwyr sydd â phrofiad o fyw ag anableddau i edrych ar hanes anabledd yng Nghonwy.
74. Gweithio mewn partneriaeth â Chelfyddydau i Bobl Anabl Cymru a Menter Iaith ar brosiect 'Dim Amdanon Ni Hebddo Ni' i sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau llai eu llais yng Nghonwy.
75. Datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 drafft (sef Strategaeth Conwy Gynhwysol), gan ymgorffori camau gweithredu o gynllun gweithredu Cymru Wrth-Hiliol a chynllun gweithredu LHDTC+.
76. Wedi darparu dau weithdy ac wedi cynnal arolwg fel rhan o brosiect Grymuso Cymunedau Amrywiol i Gyflogaeth i gefnogi mynediad i gyflogaeth ar gyfer grwpiau lleiafrifol.
77. Wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth i uwch-reolwyr a rheolwyr canol.
78. Ymgynghori â'r cyhoedd am ein cyllideb ar gyfer 2024/25, a gofyn i bobl am eu barn am y ffordd yr ydym yn blaenoriaethu ein hadnoddau.
79. Datblygu Strategaeth Gyfathrebu dwy flynedd o hyd i wella ein dull o hysbysu a chyfathrebu gyda thrigolion Conwy, hefyd yn cynyddu ein ffocws ar rannu newyddion da a chynnydd cadarnhaol.
80. Darparu hyfforddiant hygyrchedd digidol. Mae llawer wedi mynychu'r sesiynau sydd wedi cael eu canmol.
81. Wedi llunio cynlluniau cynefin Kickstarter ar gyfer Llanfairfechan, Penmaenmawr, Conwy a Llanrwst sy'n cynnwys rhestr o flaenoriaethau wedi'u nodi gan gymunedau.
82. Cefnogi Cyngor Tref Bae Colwyn i atynnu cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'r gwaith o gwblhau eu cynllun cynefin.
83. Datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau 5 mlynedd a chefnogi rhaglen hyfforddi a gwerthuso.
84. Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus.
85. Cynnal lefelau uchel o bresenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd pwyllgor, sydd wedi cynyddu ers y cyfnod blaenorol, mae'n debyg oherwydd y cynnig am gyfarfodydd aml-leoliad.
86. Wedi darparu digwyddiadau i ddysgu sut i ysgrifennu adroddiadau a chyfarfodydd democrataidd i staff er mwyn gwella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau democrataidd. Roedd y digwyddiadau hyn yn boblogaidd ac ar hyn o bryd mae rhestr aros ar gyfer sesiynau'r dyfodol.
87. Wedi adolygu'r Cyfansoddiad a'i alinio i Gyfansoddiad Enghreifftiol Cymru Gyfan
88. Wedi cynnal arolwg o'r holl orsafoedd pleidleisio i asesu'r lefel o gydymffurfiaeth ag anghenion hygyrchedd.
89. Cyflawnwyd adolygiad o ranbarthau pleidleisio a mannau pleidleisio i wneud yn siŵr fod gan yr holl etholwyr gyfleusterau rhesymol ar gyfer pleidleisio.
90. Wedi anfon cardiau pen-blwydd at bobl ifanc 14, 16 ac 18 oed i godi ymwybyddiaeth am brosesau democratiaeth ac etholiadau a'u hannog nhw i gymryd rhan.

**Canlyniad 9 – Mae CBSC yn wydn**

91. Parhau i weinyddu nifer o grantiau Llywodraeth Cymru ar ran ein preswylwyr a'n busnesau, yn gynnwys:

    i. 740 taliad grant dewisol tai – cyfanswm o £138,000;
    ii. £127,000 at fanciau bwyd y sir;
    iii. 640 o daliadau cymorth biliau ynni sydd wedi dod i gyfanswm o £192,000 i helpu pobl gyda'r costau ynni cynyddol.

92. Gweithredu system ariannol craidd newydd, Technology One.

93. Parhau i ddefnyddio proses awtomatiaeth roboteg i ddigido ac awtomeiddio trefniadau gweithio a lleihau'r angen i orfod mewnbynnu gwybodaeth â llaw.
94. Wedi sicrhau cyllid o £60,000 i ehangu'r ateb LoRaWAN ar draws y sir. Mae gwelliannau yn cynnwys: darparu monitorau o lefel afonydd, synwyryddion lleithder pridd i amddiffyn coed; a monitorau oergelloedd a rhewgelloedd mewn ysgolion i awtomeiddio gwiriadau tymheredd.
95. Wedi darparu hyfforddiant i gryfhau gwydnwch y gweithlu, gan gynnwys, 'hyfforddiant ar ôl trawma' i staff yn gweithio ar y briffordd ac mewn adsefydlu tai; cynllunio gweithlu; datblygu gwydnwch personol; a hyfforddiant cyfryngau i'n Uwch Dîm Rheoli.
96. Wedi gwneud gwelliannau pellach i'n prosesau recriwtio, gan gynnwys: digideiddio'r broses rheoli swyddi gwag i'w wneud yn fwy effeithlon; adolygu'r tudalennau gwe a'r wybodaeth, sefydlu proses hysbysiadau swyddi, peilota templed swydd-ddisgrifiad newydd; a datblygu cyfres o gwestiynau cyfweliad safonol er mwyn cael cyfweliadau effeithiol.
97. Cynyddu nifer y taliadau a wneir ar-lein gan gwsmeriaid.

**Beth allem ni ei wneud yn well? Ar beth sydd angen i ni gadw'r pwyslais?**

1. Adolygu sefyllfa ein cyllideb yn rheolaidd, y ffordd y darperir gwasanaethau a'n prosesau busnes yn rheolaidd i gwrdd â'r cynnydd mewn costau a'r gostyngiad mewn cyllid fel ein bod, er gwaethaf yr heriau, yn cyrraedd cyllideb gytbwys (risg corfforaethol CR1.9.4).
2. Cynnal ein fflyd o gerbydau'n effeithiol i danategu a chynnal darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol.
3. Gwella cynaliadwyedd y sector gofal cymdeithasol yn wyneb galw cynyddol, achosion mwy cymhleth a heriau recriwtio ac economaidd (materion corfforaethol – CI15 a CI19).
4. Gwella dewisiadau llety gofal cymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghonwy, gan leihau'r angen am leoliadau preswyl y tu allan i'r sir.
5. Mynd i'r afael â'r galw aruthrol am wasanaethau tai a digartrefedd (materion corfforaethol CI17 a CI18 a risg gorfforaethol - CR1.4.1).
6. Gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaeth iechyd gyda mwy o ffocws ar atal (materion corfforaethol - CI21).
7. Rheoli'r effeithiau o gynnydd mewn achosion o stormydd ar ein hisadeiledd ac adnoddau (risg corfforaethol CR1.1.1).
8. Rheoli ein hisadeiledd ffisegol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel, yn gynaliadwy ac yn gadarn rhag yr hinsawdd (risgiau corfforaethol – CR1.1.1 a CR1.1.3).
9. Lliniaru ac addasu effeithiau Newid Hinsawdd a gweithio at ein targed carbon sero-net (risg gorfforaethol CR1.1.4).
10. Diweddaru ein Cynllun Rheoli Asedau i gynnal dull strategol i reoli ein hasedau (risg gorfforaethol – CR1.9.16).
11. Gwella ein dulliau recriwtio a chadw staff er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy (mater corfforaethol CI13).
12. Rheoli effaith yr argyfwng costau byw ar ein gallu i adfer dyledion i'r Cyngor yn effeithiol.
13. Gwella'r gyfradd sy'n cwblhau ein hyfforddiant diogelu ar gyfer staff newydd drwy adnabod y rhwystrau sy'n atal staff rhag cwblhau'r hyfforddiant, yn enwedig i weithwyr achlysurol (risg gorfforaethol CR1.5.2).
14. Gwella ein seibergadernid a pharhad gwasanaethau yn sgil cynnydd yn y galw am wasanaethau digidol a mwy o fygythiadau seiber o'r tu allan, megis y rhyfel yn Wcráin (risg gorfforaethol CR1.9.12).
15. Cael datrysiad i warchod dogfennau digidol yn yr hirdymor (risg gorfforaethol CR1.9.2).
16. Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ar ôl y pandemig, sydd ar hyn o bryd yn 89% ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
17. Monitro effaith ein dull gweithio hybrid ar ansawdd gwasanaethau, diwylliant timau a lles staff (risg gorfforaethol CR1.9.1).
18. Parhau i gynnig cymaint â phosib o gyfleoedd i'n staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, ac i blant a phobl ifanc gael mynediad at yr iaith drwy eu haddysg.

## 6 Materion Llywodraethu

Rydym wedi cael cyngor ar oblygiadau canlyniad yr **adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Cabinet ac mae'r trefniadau yn **parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cadw at y fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd y dylid eu datrys gyda chamau gweithredu newydd wedi'u hamlinellu isod.

Nid oes problemau llywodraethu sylweddol a thrwy ein gweithdrefnau llywodraethu rydym yn ymwybodol o'n risgiau a'n materion ac yn eu rheoli. Drwy ddilyn proses o hunan-arfarnu i adolygu ein heffeithiolrwydd, rydym wedi nodi'r camau canlynol:

A1 Adolygu Canlyniad 9 y Cynllun Corfforaethol i gryfhau gwydnwch yn y tymor byr, tymor canolig a'r hirdymor.

A2 Datblygu'r gwaith cynllunio ariannol tymor canolig ymhellach, gan geisio manteisio i'r eithaf ar y budd o ymestyn ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig y tu hwnt i ddwy flynedd, a nodi camau gweithredu i gryfhau gwydnwch ariannol.

A3 Adolygu'r dull ar gyfer caffael i gynyddu capasiti ac i wella cydlyniant gweithgareddau caffael.

A4 Symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau i ddileu rhwystrau biwrocrataidd ac i wella prydlondeb penderfyniadau, gan wella effeithiolrwydd y prosesau.

Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, cynigir cymryd camau i ddatrys y materion uchod i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Byddwn yn cyfuno'r cynllun gweithredu hwn gyda'r camau a ddynodwyd yn yr hunanasesiad o berfformiad i ffurfio un cynllun gweithredu.

Mae ein trefniadau llywodraethu corfforaethol yn dal yn effeithiol i gefnogi'r Cyngor i addasu a darparu gwasanaethau heb unrhyw broblem â pharhad. Byddwn yn sicrhau bod y dull cadarn hwn ar gyfer llywodraethu yn parhau yn 2024-2025 ac i'r dyfodol wrth i ni fynd i'r afael â heriau. Mae ein trefniadau llywodraethu wedi gweithio'n dda i addasu i bwysau anferthol, ac er nad ydym eto'n gwybod beth fydd yr effeithiau hirdymor o ran cyllid a gwasanaethau cyhoeddus, gall y newid fod yn ddwys yn ogystal â darparu cyfleoedd newydd ac felly mae arnom ni angen parhau i sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn addas i'r diben.

### Casgliad

Mae gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gofnodir. Mae'r trefniadau llywodraethu wedi cefnogi'r Awdurdod yn effeithiol drwy gyfnod anodd parhaus. Drwy raglen gynefino, mae pob aelod etholedig wedi cael gwybod am eu cyfrifoldebau cyfansoddiadol. Mae penderfyniadau yn destun craffu allanol a mewnol effeithiol a lle y canfyddir gwendidau, mae cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith a'u monitro. Yn seiliedig ar yr hunanasesiad hwn, y casgliad cyffredinol yw bod ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y cyfnod 2023/2024 yn addas i'r diben ac yn cefnogi cyflawni ein hamcanion yn effeithiol.

**Llofnod**

**Dyddiad** Gorffennaf 22, 2024

**Rhun ap Gareth**
**Prif Weithredwr**

**Llofnod**

**Dyddiad** Gorffennaf 22, 2024

**Y Cynghorydd Charlie McCoubrey**
**Arweinydd y Cyngor**